CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 14eg Hydref 2024
Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 14th October 2024

Yn Bresennol/Present:
Cynghorwyr/Councillors Beth Davies, Heddwen Davies, Elen Grantham, Gethin Jones, Sue Lloyd, Eifion Rees, a/and Chynghorydd Sir De Llandysul / County Councillor Llandysul South Keith Evans a/and Chynghorydd Sir Gogledd Llandysul a Throedyraur/ County Councillor Llandysul North Troedyraur Maldwyn Lewis
Ymddiheuriadau/Apologies Cafwyd ymddiheuriadau wrth Gynghorwyr Eileen Curry, Douglas Davies, Peter Evans ac Andrew Howell. / Apologies for absence were received from Cllrs Eileen Curry, Douglas Davies. Peter Evans and Andrew Howell.

Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. / No decleration of interest was received.

Adroddiad/Report
Ni chafwyd adroddiad misol gan y PCSO. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â hi i'w hatgoffa o'r angen am adroddiad misol. /
No monthly report from the PCSO was received. It was decided that the clerk contact her reminding her of the need for a monthly report.

Cofnodion/Minutes
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 09/09/24, ar ôl ychwanegu dan y wybodaeth am Ward Pontsiân bod porfa yn tyfu'n wyllt yng nghanol y ffordd i Flaenrallt Ddu a Brynowen, Rhydowen ac i fyny i Flaencefel Pren-gwyn. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir. / Minutes of monthly meeting held on 09/09/24 were confirmed following adding under Pontsian Ward information, that the road to Blaenrallt Ddu and Brynowen, Rhydowen up to Blaencefel Prengwyn has grass overgrowing in the middle of the road. The clerk to contact the County Council.

DRAFT

Materion yn Codi: -

Bysiau
Cafwyd gwahoddiad i Gyfarfod Prosiect Bws Gwledig Dolen Teifi yn ardal Llandysul. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd Ffostrasol ar 24 Hydref 2024 am 5.00pm.

Biniau Halen
Bydd y clerc yn cael pris gan y Cyngor Sir am ddau fin halen i'w gosod ger Rock Mills a'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Fryngolau. Bydd Cynghorydd Keith Evans yn darparu gwybodaeth o ap *what3words* er mwyn cynorthwyo wrth eu lleoli.

Dewis Cymunedol Fy Iechyd
Hysbyswyd y cyfarfod gan Gynghorydd Keith Evans ei fod wedi mynychu'r digwyddiad a gynhaliwyd yn Neuadd Tysul a bod nifer dda wedi ei fynychu.

4) Ceisiadau Ariannol:
Ni chafwyd unrhyw geisiadau ariannol.

5) Materion i'w Trafod
Lle Chwarae Plant Llandysul
Roedd y clerc wedi cael cwyn am y ffaith bod y ffens yn y lle chwarae wedi torri. Ar ôl cynnal ymchwiliad, darganfuwyd bod y pren wedi pydru. Bydd y clerc yn cael prisiau er mwyn disodli'r pren gydag estyll plastig adffurfiedig. Penderfynwyd hefyd cael pris am baratoi mewnosodiadau ffens dur galfanedig fel dewis arall i'w ystyried.

Polisïau
Craffwyd y polisïau a amlygir

RHEOLAU SEFYDLOG	POB CYNGHORYDD	
COD YMDDYGIAD	POB CYNGHORYDD	
YR IAITH GYMRAEG	ELEN	PETER
CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH	ANDREW	SUE
RHEOLIADAU ARIANNOL	POB CYNGHORYDD	
GDPR	PETER	SUE
ASESU RISG	EILEEN	ANDREW
RHEOLI'R LLE CHWARAE	ELEN	BEN
RHODDION	BETH	KEITH
CWYNION	ANDREW	GETHIN

Matters Arising: -

Buses
An invitation to Dolen Teifi Rural Bus Project Meeting in the Llandysul area was received. The meeting to be held at Ffostrasol Hall on the 24th October 2024 at 5.00pm.

Salt Bins
The clerk to get prices for two salt bins from the County Council to be placed at Rock Mills and the unclassified road leading to Bryngolau. Cllr Keith Evans to provide *what3words* apps information to aid siting.

My Health Community Choice
Cllr Keith Evans informed the meeting that he had attended the event hosted at Tysul Hall and that there was good attendance.

4) Funding Applications:
No funding applications had been received.

5) Matters for Discussion
Llandysul Children's Play area
The clerk had received a complaint that the fence in the play area was broken. Following investigation, it was established that the timber was rotten. The clerk to get prices for the replacement of the timber with re-constituted plastic planks. It was also resolved to get a price for fabricating galvanised steel fencing inserts as another option for consideration.

Policies
The highlighted policies have been scrutinised

STANDING ORDERS	ALL COUNCILLORS	
CODE OF CONDUCT	ALL COUNCILLORS	
WELSH LANGUAGE	ELEN	PETER
EQUALITY AND DIVERSITY	ANDREW	SUE
FINANCIAL REGULATIONS	ALL COUNCILLORS	
GDPR	PETER	SUE
RISK ASSESSMENT	EILEEN	ANDREW

DRAFT

GWOBR Y GYMUNED	BETH	HEDDWEN
CYLCH GORCHWYL	ANDREW	EILEEN
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CRONFA DDATA	ELEN	ANDREW

Gan bod y polisïau ar gyfer y Cod Ymddygiad, y Rheolau Sefydlog, a'r rheoliadau ariannol yn bolisïau a gymeradwyir ar lefel genedlaethol, ni argymhellwyd unrhyw newidiadau.
Awgrymwyd rhai diwygiadau i'r polisïau ac fe'u derbyniwyd gan y Cyngor.
Penderfynwyd archwilio fersiynau Cymraeg a Saesneg y Polisi cwynion er mwyn sicrhau bod y rhifau ynddynt ac ati yn cyfateb yn y ddwy iaith.
Edrychir ar y polisïau heb eu craffu erbyn y cyfarfod nesaf.

Sedd Wag Llandysul
Roedd y clerc wedi dosbarthu'r hysbysiad cyhoeddus am y sedd wag yn Ward Llandysul i'r aelodau. Rhoddwyd hysbysiad ar wefan y Cyngor.

Materion Ward Brys

Maesymeillion
Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch arwydd Maesymeillion, a leolir tuag at Rhiw Pwllfein / Pontsiân, a oedd wedi diflannu, ac arwydd Maesymeillion a leolir ar y ffordd sy'n arwain o Faesymeillion i Dre-groes a bod un o'r cilbyst wedi rhydu trwyddo, a bod angen newid y ddau gilbost efallai.

Pontsiân
Hysbyswyd y Cynghorwyr gan Gynghorydd Sue Lloyd y gallech chi bleidleisio dros uwchraddio'r offer chwarae yn Neuadd Pontsiân pe bai gennych chi docyn glas yn siop Tesco Aberteifi.
Roedd y clerc wedi cael ymholiad gan aelod o'r cyhoedd yn holi a oedd y rhodd a wnaethpwyd gan y Cyngor Cymuned yn 2021 er mwyn adnewyddu'r Neuadd ym Mhontsiân wedi cael ei hawlio a'i dalu.
Hysbyswyd y Cyngor gan Gynghorydd Sue Lloyd y byddai'r gwaith yn cychwyn ym mis Ionawr 2025

Capel Dewi

MANAGEMENT OF PLAYAREA	ELEN	BEN
DONATIONS	BETH	KEITH
COMPLAINTS	ANDREW	GETHIN
GWOBR Y GYMUNED	BETH	HEDDWEN
TERMS OF REFERENCE	ANDREW	EILEEN
DATABASE PRIVACY NOTICE	ELEN	ANDREW

As the policies for Code of Conduct, Standing Orders, and financial regulations were nationally approved policies, no changes were recommended.
Some amendments to the policies had been suggested and accepted by the Council. It was decided to check the Welsh and English versions of the complaints Policy to make sure that their numbering etc corresponded in both languages.
The unscrutinised policies to be looked at by the next meeting.

Llandysul Vacant Seat
The clerk had circulated members with the public notice for the casual vacancy in the Llandysul Ward. A notice had been placed on the Council's website.

Urgent Ward Matter

Maesymeillion
It was decided that the clerk contact the County Council with regards to the Maesymeillion sign, located towards Pwllfein Hill / Pontsian that has disappeared and the Maesymeillion sign located on the road leading from Maesymeillion to Tregroes and that one of the upright post, had rusted through, possibly both uprights might require changing.

Pontsian
Cllr Sue Lloyd informed the Councillors that you could vote for Pontsian Hall upgrading of play equipment if you had a blue token in Tesco's Cardigan.
The clerk had received an enquiry from a member of the public asking if the donation made by the Community Council in 2021 for renovation of the

DRAFT

Hysbyswyd y Cyngor gan Gynghorydd Elen Grantham y bu'r Chwaraeon a'r Carnifal yn ystod yr haf yn llwyddiannus iawn.
Roedd hi hefyd yn dymuno adrodd bod angen torri'r cloddiau ar hyd y ffordd o Gapel Dewi i Landysul. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir

Horeb

Nid yw'r bolardiau ar gyffordd croesffordd Horeb wedi cael eu trwsio o hyd. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir eto.

Llandysul

Nid yw'r golau stryd ger Yr Hendre, Stryd y Bont, yn gweithio, a bydd y clerc yn adrodd am hyn.
Gofynnwyd am ganiatâd mewn egwyddor i ddisodli'r bibell ddŵr sy'n dod trwy Lle Chwarae y Plant os bydd angen i'r Gymdeithas Chwaraeon wneud hynny. Penderfynwyd rhoi'r caniatâd hwnnw.
Mae preswylwyr ym Mharc yr Ynn wedi gofyn a fyddai modd i'r Cyngor Cymuned ddarparu biniau baw cŵn ym Mharc yr Ynn, a phenderfynwyd y bydd y clerc yn holi'r Cyngor Sir i weld a fyddent yn fodlon gwagio'r biniau.
Plannu yn Llandysul
Penderfynwyd prynu mwy o fylbiau cennin pedr gan bod Richard Bramley yn meddwl eu bod wedi cael eu tynnu o'r dysglau plannu.
Mae angen ailbaentio'r llinellau parcio y tu allan i Ffab ac ar hyd y Stryd Fawr, yn enwedig lle y mae'n nodi dim parcio. Bydd y clerc yn anfon y cais ymlaen at y Cyngor Sir. Bydd y clerc yn cael pris gan y Cyngor Sir i ailbaentio'r llinellau ym maes parcio y Cyngor Cymuned gyferbyn â Neuadd Tysul, lle y mae'n nodi dim parcio, gan ei bod yn anodd i gerbydau adael y maes parcio pan fydd ceir wedi cael eu parcio yno.
Cafwyd cwynion niferus am faw cŵn ar y palmentydd yn y pentref. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir a'r PCSO.

Adroddiad gan Gynghorwyr Sir
Cafwyd gohebiaeth ar ffurf e-bost yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans, ward De Llandysul, yn ystod y cyfnod rhwng 10 Medi 2024 ac 14 Hydref 2024 ac fe'i Hall at Pontsian had been claimed and paid. Cllr Sue Lloyd informed the Council that the work would commence in January 2025

Capel Dewi

Cllr Elen Grantham informed the Council that the summer Sports and Carnival had been very successful.
She also wished to report that the hedges on the road from Capel Dewi to Llandysul needed to be cut back. The clerk to contact the County Council

Horeb

The bollards on Horeb crossroads junction still hadn't been fixed. Clerk to contact the County Council again.

Llandysul

The street light by Yr Hendre, Bridge Street. is not working, clerk to report.
Permission was sought in principal if Cymdeithas Chwaraeon needed to replace the water pipe that comes through the Children's Playarea. It was decided to grant them permission.
Residents at Parc yr Ynn have asked if the Community Council would provide dog fouling litter bins in Parc yr Ynn, it was decided that the clerk ask the County Council to see if they would empty the bins.
Planting in Llandysul
It was decided to purchase more daffodil bulbs as Richard Bramley seems to think that they have been removed for the planters.
The parking lines outside Ffab and on the near side of the High Street require repainting particularly when it states no parking.The clerk to forward the request to the County Council. The clerk to obtain a price from the County Council to re paint the hatched lines in the Community Council Carpark opposite Neuadd Tysul where it states no parking as it makes it difficult for vehicles to exit the carpark when cars are parked there.
Numerous complaints had been received of dogs fouling on the pavements in the village. The clerk to contact the County Council and the PCSO.

DRAFT

nodwyd. Rhoddodd Cynghorydd Maldwyn Lewis amlinelliad ar lafar o'i waith ef yn ward Gogledd Llandysul a Throedyraur <u>Gohebiaeth</u> <u>Sul y Cofio</u> Cafwyd llythyr gan Barchedig Ganon Gareth Reid yn estyn gwahoddiad i aelod o'r Cyngor wneud darlleniad yn ystod gwasanaeth Sul y Cofio a gynhelir yn Eglwys St Tysul ar ddydd Sul 10 Tachwedd 2024. Bydd gofyn i'r rhai sy'n rhan o'r orymdaith ddod ynghyd am 10.45 ger y plac coffa wrth fynedfa y Parc Coffa. Fel y Cadeirydd, roedd gan Barchedig Gynghorydd Beth Davies ymrwymiadau yn ei grŵp o Eglwysi ar y diwrnod hwn, a phenderfynwyd y byddai'r Is-Gadeirydd, Gethin Jones, yn cynrychioli'r Cyngor ac yn rhoi'r darlleniad. Byddent hefyd yn cynnal gwasanaeth ar ddiwrnod y cadoediad ar 11 Tachwedd am 10.45 Estynnwyd gwahoddiad i bawb fynychu. <u>Cyngor Sir Ceredigion</u> Cafwyd gwahoddiad i fynychu cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ar 28 Tachwedd am 6.30pm Penderfynwyd y bydd y Cadeirydd, Parchedig Cynghorydd Beth Davies a'r Clerc yn mynychu'r cyfarfod ar ran Cyngor Cymuned Llandysul. Os bydd gan Aelodau unrhyw gwestiynau y maent yn dymuno iddynt gael eu gofyn yn ystod y cyfarfod, gofynnir iddynt eu hanfon ymlaen at y clerc erbyn 14 Tachwedd. Cafwyd taflenni hysbysebu yn hysbysu rhieni o ddewisiadau gofal plant posibl ac fe'u dosbarthwyd i'r Cynghorwyr er mwyn eu harddangos yn eu wardiau. <u>Chwarae Cymru</u> Cafwyd cylchgrawn Chwarae Cymru ac fe'i roddwyd i Gynghorydd Heddwen Davies. Cafwyd Clerks and Councils Direct ac fe'i nodwyd. <u>Glasdon</u>	<u>Report by County Councillors</u> E-mail correspondence was received as requested providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 10 September 2024 to 14 October 2024 and noted. Cllr Maldwyn Lewis provided an oral outline of his work in the Llandysul North and Troedyraur ward <u>Correspondence</u> <u>Remembrance Sunday</u> A letter was received from Reverend Canon Gareth Reid inviting a member of Council to read the lesson at the Remembrance Sunday service to be held in St Tysul Church on Sunday 10 November 2024. Those that are part of the procession to gather at 10.45 at the memorial plaque by the entrance to the Memorial Park. As the Chair, Rev Cllr Beth Davies had commitments within her group of Churches on this day, it was decided that Vice-Chair Gethin Jones would represent the Council and provide the reading. They would also be holding an armistice day service on 11th November at 10.45 An invitation was extended for all to attend. <u>Ceredigion County Council</u> An invitation had been received to a meeting between representatives of the County Council and Town and Community Councils at Cardigan Secondary School on November 28th at 6.30pm It was decided that Chair Rev Cllr Beth Davies and Clerk attend the meeting on behalf of Llandysul Community Council. If Members had questions that wished to be asked at the meeting, they were requested to send them to the clerk by 14th November. Flyers were received to inform parents of possible childcare options and circulated to Councillors to display in their wards. <u>Play for Wales</u> Play for Wales magazine was received

DRAFT

Cafwyd catalog Glasdon. Cynllunio Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned ac ni wnaethpwyd unrhyw Wrthwynebiadau i'r cynigion:- A240620 – Coed Y Broch, Rhydowen Newid defnydd garej er mwyn creu 2 lety i weithwyr gofal. Gwybodaeth Ariannol Llinos Jones – Ysgrifennwyd siec am y swm o £160.98 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Medi. Tysul Youth – Ysgrifennwyd siec am y swm o £300 am Logi'r Ganolfan Ieuenctid er mwyn cynnal cyfarfodydd. ICO – Ysgrifennwyd siec am y swm o £40 i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer Deddf GDPR a Diogelu Data 2018. Nia Davies – Ysgrifennwyd siec am y swm o £539.89 am y tanysgrifiad Zoom blynyddol, yr oedd hi wedi ei dalu	and given to Cllr Heddwen Davies. Clerks and Councils Direct were received and noted. Glasdon Glasdon catalogue was received. Planning The following plans were supported by the Community Council and there were no Objections to the proposals: - A240620 – Coed Y Broch, Rhydowen Change of use of garage to form 2no. care workers accommodation. Financial Information Llinos Jones – Cheque for £160.98 was written for September translation. Tysul Youth – Cheque was written for £300 for Hire of Youth Centre for meetings. ICO – Cheque was written for £40 to the Information Commissioner's Office for GDPR and Data Protection Act 2018. Nia Davies – Cheque was written for annual Zoom subscription that she had paid for £539.89

DRAFT

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

		£ c/£ p	*Rhif siec Cheque number*
Llinos Jones	Cyfieithu/Translation	160.98	001277
Tysul Youth	Rhent/Rent	300.00	001278
Nia Davies	Cyflog y Clerc Medi	577.97	001279
HMRC	Cyflog y Clerc Medi	144.60	001280
ICO	Membership	40.00	001281
Nia Davies (Clerk)	Reimbursement of Zoom subscription	539.89	001282

DRAFT